

Cyngor Cymuned Llanelian (291)

Cofnodion cyfarfod Hydref 10, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Ian Evans, Cyng Richard Griffiths, Cyng Aled Jones

Ymddiheuriadau: Thomas Jones, Elfyn Hughes, David Gerrard, Helen Hughes Cyng Richard Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Gordon Hayes eilio Glenys Jones.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Toiledau Cyhoeddus

Cafwyd ebost gan Meirion Edwards, swyddog CSYM, yn nodi nad oes polisi swyddogol ar hyn o bryd a bod y Cyngor yn disgwyl arweiniad gan Llywodraeth Cymru ar sut i ysgrifennu strategaeth newydd. Teimlai'r aelodau nad oedd cyfiawnhad cau'r toiledau nes bydd polisi newydd wedi ei fabwysiadu. Deallwyd nad oedd cymunedau eraill yn rhy hoff o'r syniad o gymryd cyfrifoldeb am y cyfleusterau.

Cytuno na fyddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd camau pellach ar hyn o bryd gan fod y toiledau wedi eu cau dros gyfnod y gaeaf beth bynnag. Ni all CSYM orfodi'r Cyngor Cymuned gymryd y cyfrifoldeb, ond mae rhaid iddynt gadw at eu polisi. Cytuno cadw'r mater ar yr agenda misol nes bydd ddiweddariad. Nodwyd bod y cynrychiolwyr sirol yn ymwybodol ac yn deall safwbwynt y cyngor ac felly yn gallu adrodd yn ol i CSYM fel bo angen.

4.2 Arolwg Tai

Deallwyd bod yr hwyluswyr tai yn dal i ddisgwyl am ddata cyfeiriadau gan CSYM. Nodwyd bod yr arolwg wedi ei drafod yng nghyfarfod mis Mehefin a'i bod nawr ym mis Hydref. Roedd yr aelodau yn siomedig nad oedd y gwaith wedi ei gwblhau bellach. Cyng Aled Jones i gysylltu a CSYM i weld pam nad oedd y data wedi ei rannu a chadarnhau yn union pa ardal oedd wedi'i gynnwys. Cytuno bod angen canlyniadau'r arolwg i allu trin a thrafod ceisiadau cynllunio yn yr ardal.

4.3 Lon yr Ysgol

Cafwyd ebost gan Alun Roberts mewn ymateb i bryderon y Cyngor Cymuned. Mae CSYM yn bwriadu gwneud arolwg eto ar y safle Nodwyd mai Cyngor Cymuned Rhosybol oedd wedi talu am osod twmpathau tu allan i'r Ysgol yn y pentref, byddai hyn efallai yn opsiwn i Gyngor Llanelian hefyd.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael tir ar gyfer maes parcio i'r Ysgol ond roedd pryderon am ddyfodol yr Ysgol tra bod CSYM yn edrych ar ysgolion y cylch ar hyn o bryd ac y byddai datblygiad o'r fath yn gostus iawn. Nodwyd bod modd i rieni ddefnyddio maes parcio Top Rallt yn rhad ac am ddim.

Cytuno gofyn i Lywodraethwyr yr Ysgol drefnu bod llythyr yn cael ei hanfon i'r holl rieni yn codi ymwybyddiaeth o'r broblem parcio a goryrru a phryderon am ddiogelwch plant. Glenys Jones i drefnu.

4.4 Swyddfa Bost

Cafwyd ymateb gan y Swyddfa Bost yn cadarnhau bydd posib i'r post symudol ymweld a'r pentref ddydd Llun 23/10/2017 tra bod y post wedi cau. Bydd y gwasanaeth yn agor yn y siop o fewn pythefnos. Cadarnhawyd bod cais wedi ei wneud i'r Post Brenhinol i gael symud y blwch postio yn nes at y siop.

4.5 Parcio ar y glaswellt ar y gyffordd a'r A5025

Cafwyd ebost gan Arwyn Hughes ar ran CSYM, cadarnhawyd ei fod wedi cysylltu a perchnogion ceir oedd wedi eu parcio ar gyffordd yn yr ardal er mwyn eu symud, ond nad oedd CSYM yn gallu gosod arwyddion i atal poobl rhag parcio eu ceir ar dir y Cyngor i'w gerthu. Nodwyd bod y Cyngor Cymuned wedi dwyn sylw CSYM i'r mater ac nad oedd posib cymryd camau pellach dim ond monitro'r sefyllfa.

4.6 Giat y Fynwent

Dim diweddariad.

4.7 Parcio ger y Neuadd

Cafwyd ebost gan Dewi Williams mewn ymateb i bryderon y Cyngor. Cytuno gofyn i'r warden draffig gadw golwg tra yn ymweld a Lon yr Ysgol. Nodwyd bod y Cyngor Cymuned wedi dwyn sylw CSYM i'r mater ac nad oedd posib cymryd camau pellach dim ond monitro'r sefyllfa.

4.8 Diffibriwleiddiwr

Mae perchnogion y siop wedi cytuno byddai'r peiriant yn cael ei leoli ar flaen y siop. Bydd i'w osod tra bydd y gwaith i addasu'r siop ar gyfer y swyddfa bost. Cytuno anfon llythyr o ddiolch.

4.9 Lon Tyddyn Waen

Deallwyd gan CSYM eu bod yn bwriadu ymweld a'r safle i wirio bod arwyddion digonolyn eu lle a threfnu unrhyw waith fydd ei angen. Cafwyd wybod gan Cyng Richard Griffiths ei fod wedi ymweld a'r safle dros ei hun ac wedi gweld dros ei hun y broblem o bobl yn goryrru, Deallwyd mai gofawyr yn cwblhau eu ymweliadau yw'r cerbydau dan sylw. Mae arwydd 10mya wedi ei osod cyn cyrraedd y cae chwarae.

4.10 Diogelu Enwau Hanesyddol

Nid oes hawliau gorfodaeth gan CSYM i sicrhau nad yw enwau hanesyddol yncael eu newid. Mae grwp prosiect lleol ar y gweill. Mae trigolion y gymuned ynghlwm ynghyd a Thomas Jones ac felly bydd posib iddo adrodd yn ol i'r Cyngor.

4.11 Pwyllgor Safonau

Wedi peth trafod cytuno byddai'r cyngor yn cefnogi ceisiadau Roger Dobson a Keith Roberts.

5 Caeau Chwarae

Mae arwyddion newydd wedi cael eu harchebu ar gyfer y ddau gae chwarae. Mae'r fainc newydd wedi cyrraedd ond heb ei osod hyd yma ym Maes Llwyfo.

6 Llithrfa

Mae'r postyn wedi ei symud ac mae goriadau yn cael eu dychwelyd. Bydd cyfarfod y pwyllgor diwedd Tachwedd unwaith bydd posib paratoi'r cyfrifon.

7 Cynllunio

7.1 Ceisiadau – roedd un cais i'w ystyried:

- Corn Farm (24C347) – dim sylw

7.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- Dim

7.3 Arall

7.3.1 Tai Fforddiadwy

Cafwyd wybod mai yn unol a pholisi cynllunio TAI15, o fewn datblygiad ym Mhenysarn, byddai angen i 10% o'r tai fod yn 'fforddiadwy'; felly yn natblygiad Dublin a Kinsgton, mae 1 ty allan o'r 9 yn ddigonol. Deallwyd bod cytundeb 106 ar y datblygiad. Cyng Aled Jones i wneud ymholiadau pellach. Gweler yr atodiad am fwy o wybodaeth ynglŷn a'r polisi.

7.3.2 Carffosiaeth – Dwr Cymru

Cafwyd ebost gan Dwr Cymru yn cadarnhau mai gyda CSYM oedd y gair olaf wrth benderfynnu ar gais cynllunio. Nid oedd yr ebost yn ateb yr holl gwestiynnau oedd wedi eu gofyn. Mae ymateb wedi ei anfon yn ol at Dwr Cymru yn gofyn am fwy o wybodaeth. Nid oes ymateb hyd yma.

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:
£492.00 NBB Mainc
£272.23 Cyflog Clerc
£207.27 Costau Gorffennaf – Medi
£204.20 HMRC

8.2 Adroddiad Chwarterol

Dosbarthwyd copi o'r adroddiad i bawb oedd yn bresennol. Diolchwyd i'r clerch am ei baratoi.

8.3 Archwiliad

Daw adroddiad swyddogol ga yr archwiliwr allannol. Un pwynt sydd wedi ei nodi sef bod y ffurflen flynyddol wedi ei arwyddo wedi i'r ffurflen cael ei gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r hysbyseb bod y cyfrifon ar gael i'w gweld gan y gymuned wedi ei osod yn y hysbyfwrdd.

8.4 Ceisiadau am Arian

Dim ceisiadau wedi'i derbyn.

8.5 Cofrestr Asedau

Dim diweddariad.

9 Cronfa Ty Moel Isaf

Dim diweddariad.

10 Iechyd a Diogelwch

Nodwyd pryderon ynglŷn a chyflwyr y safle bws ger Marie Curie. Nodwyd bod David Gerrard wedi clirio'r safle gan ei fod wedi ei dagu gan ordyfriant a mwsog. Y Cyngor Cymuned sydd berchen ary safleoedd. Nodwyd bod John Griffiths yn edrych ar ol y safle bws ger ei waith ers peth amser. Cynnigwyd bod angen ymweliad i wahanol safleoedd y cyngor er mwyn gweld beth sydd angen ei wneud i'w gynnal a chadw. Mae peth arian wedi ei glustnodi yn y gyllideb ar gyfer cynnal a chadw.

11 Gohebiaeth

Daw cais gan y Panel Adolygiad Annibynnol am ymateb i bedwar cwestiwn yn ymwneud a rol cynghorau tref a cymuned yn y dyfodol. Cytuno cynnwys yn eitem ar yr agenda i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu ag Un Llais Cymru i weld os/sut oedd y pwyllgor ardal yn bwriadu ymateb.

13 Unrhyw Fater Arall

Cerbydau Fferm Mawr - Cafwyd wybod gan John Griffiths bod nifer o dractors a cherbydau fferm mawr yn teithio ar hyd lonydd bychain ardal Nebo a Mynydd Eilian. Mae pryderon eu bod yn dinistrio'r lonydd a'r ffosydd yn yr ardal yn ogystal a gadael mwd ar hyd y ffordd. Cyng Aled Jones i gysylltu a'r ardan briffyrdd i godi ymwybyddiaeth. Nodwyd mai contractwyr yw'r gyrrwyr ac nid y ffermwyr eu hunain.

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Tachwedd 7, 2017 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.50.

**Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd**